Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2017–2018

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol ar Addasrwydd i Ymarfer 2017–2018

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50 (2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Tachwedd 2018

© **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2018)**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn i'r Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.nmc.org.uk

ISBN: 978-1-5286-0830-5

CCS1018757050 11/18

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys

Rhagair .... 5

Trosolwg o sut rydym yn diogelu'r cyhoedd .... 7

- Amdanom ni .... 7
- Ein cofrestr .... 8
- Beth yw ystyr addasrwydd i ymarfer? .... 8
- Sut y caiff pryderon eu codi .... 9
- Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried .... 9
- Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir .... 10
- Camau rheoleiddio y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd .... 10

Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau .... 12

Crynodeb ystadegol 2017–2018 .... 13

- Ein dangosyddion perfformiad allweddol .... 13
- Nifer y cwynion .... 13
- Ffynhonnell y pryderon .... 13
- Pryderon fesul gwlad y cyfeiriad cofrestredig .... 14
- Pryderon yn ôl math o gofrestriad .... 15
- Canlyniadau asesiad cychwynnol .... 15
- Canlyniadau Archwilydd Achos .... 16
- Canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd .... 18
- Cofnodion ar y gofrestr a wnaed drwy dwyll neu'n anghywir .... 19
- Dileu gwirfoddol .... 19
- Adolygiadau ac apeliadau .... 20
- Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr .... 22

Nodiadau ar y data .... 23

Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd .... 24

- Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ac Uned Gwybodaeth Reoleiddio .... 25

Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol .......................... 26

Cyfeiriad strategol newydd .......................................................................... 26

## Rhagair

Roedd 2017–2018 yn flwyddyn sylweddol ar gyfer addasrwydd i ymarfer. Yn ogystal â pherfformiad gweithredol cadarn, gwnaethom gyflwyno newidiadau pwysig i'n deddfwriaeth:

- Ym mis Mawrth 2017, gwnaethom newid y ffordd rydym yn rheoleiddio bydwragedd drwy ddileu goruchwyliaeth o'n deddfwriaeth. Gall cyflogwyr, cleifion a'u teuluoedd gysylltu â ni yn uniongyrchol bellach os oes ganddynt bryderon am fydwragedd. Rydym yn gyfrifol yn uniongyrchol am reoleiddio bydwragedd, gan sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r ffordd rydym yn rheoleiddio nyrsys. Mae ein data yn dangos nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yng nghyfran yr atgyfeiriadau am fydwragedd ers y newidiadau hyn.

- Ym mis Gorffennaf 2017, gwnaethom gyflwyno pwerau newydd i'n Harchwilwyr Achos gau achosion drwy gyflwyno rhybuddion, rhoi cyngor neu gytuno ar ymgymeriadau. Mae'r pwerau newydd hyn yn ein galluogi i ddatrys achosion yn gynt a lleihau'r angen am wrandawiadau gwrthwynebol a all gael effaith sylweddol ar gleifion a theuluoedd yn ogystal â nyrsys a bydwragedd. Mae'n bleser gweld effaith gadarnhaol y pwerau gwneud penderfyniad newydd hyn, gan gynnwys y buddiannau ariannol a ddaeth yn eu sgîl.

Rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau i wneud gwelliannau sylweddol i fynd i'r afael â chanfyddiadau Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o'r ffordd y gwnaethom ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer yn cynnwys bydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn y gwaith o sefydlu gwasanaeth cymorth i'r cyhoedd newydd a mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion o ran addasrwydd i ymarfer, ac rydym yn disgwyl i'r rhain gael effaith gadarnhaol ar gleifion a theuluoedd yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn ddiweddar rydym wedi pennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer, *Sicrhau diogelwch cleifion, galluogi proffesiynoldeb*. Rydym yn canolbwyntio ar leihau risgiau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn y dyfodol drwy annog diwylliant o fod yn agored a dysgu, ac nid cosbi nyrsys a bydwragedd am gamgymeriadau'r gorffennol. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- sicrhau bod pobl wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud, fel ein bod yn trin cleifion a theuluoedd gyda thosturi a pharch, a gwrando'n iawn ar eu pryderon a'u datrys.

- gweithio'n agosach gyda chyflogwyr fel y gellir datrys cynifer o faterion â phosibl yn gyflym ac yn effeithiol ar lefel leol

- rhoi mwy o ystyriaeth i gyd-destun y digwyddiad, gan gydnabod y problemau cymhleth a'r pwysau mae nyrsys a bydwragedd yn eu hwynebu bob dydd
- annog nyrsys a bydwragedd i fod yn agored pan fydd pethau'n mynd o chwith a'u helpu i wella pethau
- gwneud defnydd gwell o wrandawiadau i leihau'r effaith ar gleifion a theuluoedd ac ar nyrsys a bydwragedd.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar weithredu ein dull newydd ac edrychwn ymlaen at adrodd ar y newidiadau cyffrous hyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Philip Graf
Cadeirydd, NMC
16 Hydref 2018

Sue Killen
Prif Weithredwr Interim a Chofrestrydd, NMC
16 Hydref 2018

# Trosolwg o sut rydym yn diogelu'r cyhoedd

## Amdanom ni

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) yw'r rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth annibynnol i Gymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd ac rydym yn ceisio sicrhau bod ein holl waith yn sicrhau budd i'r cyhoedd. Rydym yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor.

Amcan cyffredinol y Cyngor wrth arfer ei swyddogaethau yw amddiffyn y cyhoedd, sy'n cynnwys yr amcanion canlynol:

- Amddiffyn, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
- Hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau rydym yn eu rheoleiddio.
- Hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol ac ymddygiad nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd.

Ein cyfrifoldebau rheoleiddio yw:

- Cadw cofrestr o'r rhai sy'n bodloni ein gofynion ar gyfer cofrestru.
- Pennu safonau addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad fel y gall nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd ddarparu gofal iechyd o ansawdd uchel yn gyson drwy gydol eu gyrfaoedd.
- Cymryd camau i ymdrin ag unigolion lle mae amheuaeth ynghylch eu priodoldeb neu eu gallu i roi gofal diogel, fel y gall y cyhoedd ymddiried yn yr ansawdd a'r safonau gofal a roddir gan nyrsys, cymdeithion nyrsio a bydwragedd.

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) yn goruchwylio ein gwaith ac yn cynnal adolygiad o'n perfformiad bob blwyddyn.

Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith rydym yn ei wneud i amddiffyn y cyhoedd ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/about-us/.

## Ein cofrestr

Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwragedd sy'n cyrraedd ein safonau a chaniateir iddynt ymarfer yn y DU.

**Ar ddiwedd mis Mawrth 2018, roedd 690,278 o nyrsys a bydwragedd ar ein cofrestr – 495 yn llai na diwedd mis Mawrth 2017.**

**Mae'r gofrestr yn cynnwys 646,637 o nyrsys (94%), 35,830 o fydwragedd (5%) a 7,811 sydd wedi cofrestru fel nyrs a bydwraig (1%).**

**Mae trosolwg o leoliad daearyddol ein cofrestr fel a ganlyn**

| Gwlad y cyfeiriad cofrestredig | Canran o'r gofrestr |
|---|---|
| Lloegr | 79% |
| Yr Alban | 10% |
| Cymru | 5% |
| Gogledd Iwerddon | 4% |
| Tramor | 2% |

Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i bryderon am nyrsys a bydwragedd. Os bydd rhywun sydd wedi'i gofrestru gyda ni yn peri risg i gleifion neu'r cyhoedd, gallwn weithredu i gyfyngu ar ei hawl i weithio fel nyrs neu fydwraig nes ein bod yn hyderus ei bod yn cyrraedd ein safonau neu ei dileu o'r gofrestr yn gyfan gwbl.

Mae ein cofrestr ar gael i'r cyhoedd a gall unrhyw un weld a yw nyrs neu fydwraig wedi'i chofrestru ar hyn o bryd, neu os yw ei hymarfer wedi'i gyfyngu mewn unrhyw ffordd drwy fynd i [www.nmc-uk.org.uk/search-the-register/](http://www.nmc-uk.org.uk/search-the-register/) neu ein ffonio neu ysgrifennu atom.

## Beth yw ystyr addasrwydd i ymarfer?

Rydym yn dweud bod nyrs neu fydwraig yn addas i ymarfer pan fydd ganddi'r sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad i wneud ei gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae ein cod proffesiynol, *Y Cod: Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd* (NMC, 2015) yn nodi'r safonau proffesiynol y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu cynnal er mwyn bod wedi'u cofrestru, a chynnal eu cofrestriad yn y DU. Mae'r Cod ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/code.

Mae ein proses ailddilysu yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob nyrs a bydwraig ddangos yn rheolaidd ei bod yn ymarfer yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r safonau a nodwyd yn y Cod.

Os oes gan unrhyw un bryderon am addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig, i ddechrau gallant godi eu pryderon â'r cyflogwyr i weld a ellir eu datrys yn lleol.

Os na ellir datrys y pryderon yn lleol, neu os bydd rhywun o'r farn eu bod yn ddigon difrifol fel bod angen cymryd camau rheoleiddio ar unwaith, yna gallant godi eu pryderon gyda ni. Byddwn yn edrych ar beth sydd wedi digwydd a ph'un a yw'r nyrs neu'r fydwraig yn addas i ymarfer nawr ac yn y dyfodol. Yna byddwn yn penderfynu pa gamau gweithredu y bydd angen i ni eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd.

## Sut y caiff pryderon eu codi

Gall unrhyw un ddweud wrthym ar unrhyw adeg os oes ganddo bryderon am addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer. Gallwn hefyd agor achosion ein hunain os bydd angen i ni wneud hynny.

Yn nodweddiadol, rydym yn derbyn cwynion gan y canlynol:

- claf neu rywun sy'n defnyddio gwasanaethau nyrs neu fydwraig
- aelod o'r cyhoedd
- cyflogwr neu reolwr y nyrs neu'r fydwraig
- yr heddlu
- nyrs neu fydwraig yn atgyfeirio ei hun
- rheoleiddwyr gofal iechyd eraill.

Mae rhagor o wybodaeth am atgyfeirio ar gael ar ein gwefan: www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/concerns-complaints-referrals/

## Pryderon y gallwn ac na allwn eu hystyried

Dim ond os ydynt yn ymwneud â nyrs neu fydwraig ar ein cofrestr y gallwn ystyried pryderon. Ni allwn ystyried pryderon os ydynt am weithwyr gofal iechyd eraill, neu aelodau o'r cyhoedd. Byddwn yn atgyfeirio'r pryderon hyn at reoleiddwyr eraill, neu'r heddlu os yw'n briodol.

Ein rôl yw penderfynu a yw unrhyw bryderon am addasrwydd i ymarfer nyrs neu fydwraig yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gymryd camau rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd. Mae'r mathau o bryderon y gallwn eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

- camymddwyn (gan gynnwys camymddwyn clinigol)
- diffyg cymhwysedd
- collfarnau troseddol
- salwch difrifol
- ddim yn ddigon rhugl yn Saesneg.

Rydym hefyd yn ymchwilio i achosion lle mae'n ymddangos bod rhywun wedi cael mynediad i'n cofrestr drwy dwyll neu'n anghywir.

## Sut rydym yn ymdrin â phryderon a godir

Mae'r camau rydym yn eu cymryd i'n helpu i asesu pryderon a phenderfynu a oes angen cymryd camau rheoleiddio fel arfer yn cynnwys y canlynol:

- gofyn am ragor o wybodaeth gan y person a gododd y pryder
- gwirio ein cofnodion i weld a oes pryderon wedi cael eu codi am y nyrs neu'r fydwraig yn flaenorol
- gofyn i gyflogwr y nyrs neu'r fydwraig a oes ganddo unrhyw bryderon am y person hwnnw
- cymryd datganiadau gan dystion a chasglu tystiolaeth arall
- gofyn i'r nyrs neu'r fydwraig am ei hymateb i'r pryderon ac i egluro unrhyw gamau y mae wedi'u cymryd i wella pethau.

Mewn rhai achosion, byddwn yn cynnal gwrandawiad neu gyfarfod i benderfynu a oes angen cymryd camau rheoleiddio. Paneli annibynnol sy'n cynnal gwrandawiadau a chyfarfodydd. Bydd y panel yn cael tystiolaeth berthnasol a gall glywed gan dystion a'r nyrs neu'r fydwraig y gwnaed yr honiadau yn ei herbyn.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn ymdrin â phryderon ar gael ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/dealing-concerns/

## Camau rheoleiddio y gallwn eu cymryd i ddiogelu'r cyhoedd

Os oes angen, gallwn gymryd camau brys dros dro i ddiogelu'r cyhoedd tra ein bod yn ymchwilio i bryderon. Rydym yn gwneud hyn drwy ofyn i banel annibynnol osod gorchymyn interim. Mae dau fath o orchymyn interim:

- Gorchymyn amodau ymarfer interim, sy'n gorfodi amodau y mae'n rhaid i'r nyrs neu'r fydwraig gydymffurfio â nhw.
- Gorchymyn atal dros dro interim, sy'n atal cofrestriad y nyrs neu'r fydwraig dros dro.

Mae rhagor o wybodaeth am orchmynion interim ar gael ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/information-under-investigation/interim-orders/

Unwaith y byddwn wedi ymchwilio i'r pryderon yn llawn, gall ein Harchwilwyr Achos wneud y canlynol:

- rhoi cyngor i'r nyrs neu'r fydwraig i'w hatgoffa am y safonau proffesiynol y mae disgwyl iddi eu cynnal
- rhoi rhybudd i'r nyrs neu'r fydwraig
- cytuno ar ymgymeriadau gyda'r nyrs neu'r fydwraig, sy'n gyfres o gamau y cytunwyd arnynt y mae'n rhaid iddi eu cymryd i ddychwelyd i ymarfer diogel ac effeithiol
- cau'r achos heb gymryd camau gweithredu pellach os nad oes unrhyw bryderon am ddiogelwch y cyhoedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y camau gweithredu y gall ein Harchwilwyr Achos eu cymryd ar gael ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings/our-panels-case-examiners/case-examiners/

Mewn achosion mwy difrifol, neu lle nad yw'r nyrs neu'r fydwraig yn derbyn bod pryderon am ei hymarfer, byddwn yn cynnal gwrandawiad. Mewn gwrandawiad, gall panel annibynnol wneud y canlynol:

- gosod gorchymyn rhybudd am hyd at bum mlynedd
- gorfodi amodau ymarfer y mae'n rhaid i'r nyrs neu'r fydwraig gydymffurfio â nhw am hyd at dair blynedd
- atal y nyrs neu'r fydwraig o'r gofrestr am hyd at flwyddyn
- dileu'r nyrs neu'r fydwraig o'r gofrestr
- cau'r achos heb unrhyw gamau gweithredu pellach.

Mae rhagor o wybodaeth am gamau gweithredu y gall ein paneli annibynnol eu cymryd ar gael ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings/our-panels-case-examiners/fitness-to-practise-committee/

Mewn rhai amgylchiadau, a dim ond os byddwn yn fodlon ei fod er budd y cyhoedd i wneud hynny, gallwn ganiatáu i nyrs neu fydwraig ddileu ei henw ei hun yn wirfoddol o'n cofrestr heb fod angen gwrandawiad na chyfarfod.

## Gwybodaeth gyhoeddus am ein penderfyniadau

Cyhoeddir gwybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ein canllawiau ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/

Pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau rheoleiddio am addasrwydd nyrs neu fydwraig i ymarfer, byddwn yn egluro ein rhesymau i'r person a gododd y pryderon gyda ni ac i'r nyrs neu'r fydwraig.

Yn ogystal, os byddwn yn penderfynu cymryd camau rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan fel y gall unrhyw un weld y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud a pham:

- pan fydd panel yn gosod gorchymyn interim, byddwn yn cyhoeddi'r canlyniad ac yn ei nodi ar gofnod y nyrs neu'r fydwraig ar y gofrestr
- pan fydd yr Archwilwyr Achos yn rhoi rhybudd neu'n cytuno ar ymgymeriadau, cyhoeddir esboniad a rhesymau gyda chofnod y nyrs neu'r fydwraig ar y gofrestr
- pan fydd panel yn penderfynu cyflwyno rhybudd, amodau ymarfer, atal dros dro, neu orchymyn dileu, byddwn yn cyhoeddi rhesymau llawn y panel ac yn nodi'r canlyniad ar gofnod y nyrs neu'r fydwraig ar y gofrestr.

Mewn achosion sy'n ymwneud ag iechyd unigolyn, neu sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif arall, rydym yn cyhoeddi gwybodaeth o hyd ond fel arfer mewn llai o fanylder. Fel hyn, rydym yn diogelu'r cyhoedd ac yn parchu preifatrwydd yr unigolyn. Pan fyddwn yn penderfynu cau achos heb gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach, ni fyddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fel arfer gan nad oes unrhyw reswm i wneud hynny i ddiogelu'r cyhoedd ac mae gennym gyfrifoldeb i ddiogelu preifatrwydd y rheini sy'n rhan o'r achos.

Mae ein cofrestr o nyrsys a bydwragedd ar-lein: www.nmc.org.uk/search-the-register/

Mae gwybodaeth am wrandawiadau sydd ar y gweill a phenderfyniadau diweddar gan y panel ar ein gwefan:

www.nmc.org.uk/concerns-nurses-midwives/hearings/hearings-sanctions/

# Crynodeb ystadegol 2017–2018

## Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Ym mhob achos, ein nod yw cyrraedd y canlyniad sy'n diogelu'r cyhoedd orau cyn gynted â phosibl. Mae gennym ddau ddangosydd perfformiad sy'n mesur hyn.

Lle y bo angen, ein nod yw gosod 80 y cant o orchmynion interim o fewn 28 diwrnod i gael yr atgyfeiriad. Ar ddiwedd y flwyddyn, ein perfformiad oedd 88 y cant.

Ein nod yw cwblhau 80 y cant o'n hachosion o fewn 15 mis i'w derbyn. Ar ddiwedd y flwyddyn, ein perfformiad oedd 81 y cant.

## Nifer y cwynion

Yn 2017–2018 cawsom 5,509 o bryderon newydd, tua 1 y cant yn fwy na'r 5,476 o atgyfeiriadau a gawsom yn 2016–2017. Mae cyfanswm nifer y pryderon a gawsom yn cynrychioli tua 8 atgyfeiriad am bob 1,000 o gofrestryddion.

## Ffynhonnell y pryderon

Mae Tabl 1 yn dangos y ffynonellau pryderon a gawsom y llynedd. Ar y cyfan, nid yw cyfran y pryderon a atgyfeiriwyd atom o ffynonellau gwahanol yn 2017–2018 wedi newid o gymharu â 2016–2017.

**Tabl 1: Ffynhonnell y pryderon a gafodd eu hatgyfeirio atom**


| Pwy wnaeth atgyfeirio pryderon atom | 2017–18 | | 2016–17 |
|---|---|---|---|
| | Nifer y pryderon newydd | Canran y pryderon newydd | Canran y pryderon newydd |
| Claf/cyhoedd | 1,470 | 27% | 28% |
| Hunanatgyfeiriad | 538 | 10% | 10% |
| Cyflogwr | 2,178 | 40% | 39% |
| Wedi'u hagor gan yr NMC | 331 | 6% | 6% |
| Cofrestrydd arall | 168 | 3% | 3% |
| Rheoleiddiwr arall | 35 | <1% | 1% |
| Atgyfeiriwr yn anhysbys | 213 | 4% | 3% |
| Unrhyw hysbyswr arall | 576 | 10% | 10% |
| **Cyfanswm** | **5,509** | | |

Nid oeddem yn gallu nodi nyrs na bydwraig gofrestredig mewn 731 o'r achosion newydd a godwyd gyda ni. Mae rhai o'r rheini yn achosion a gawsom ar ddiwedd y cyfnod adrodd a lle byddwn yn nodi nyrs neu fydwraig yn 2018–2019. Mae eraill yn

achosion lle nad oes gennym yr awdurdod i weithredu oherwydd nad ydynt yn ymwneud â nyrs neu fydwraig gofrestredig.

## Pryderon fesul gwlad y cyfeiriad cofrestredig

Mae'r diagram canlynol yn dadansoddi'r 4,778 o achosion lle y gwnaethom nodi nyrs neu fydwraig gofrestredig gan ddefnyddio gwlad cyfeiriad cofrestredig y nyrs neu'r fydwraig. Ar y cyfan mae cyfran y pryderon ym mhob gwlad yn cyfateb i gyfran y nyrsys a'r bydwragedd ar y gofrestr.



## Pryderon yn ôl math o gofrestriad

Gall unigolyn fod wedi ei gofrestru gyda ni fel nyrs, fel bydwraig, neu fel nyrs a bydwraig (a elwir yn gofrestriad deuol). Y llynedd gwnaethom nodi'r dadansoddiad o ddata cofrestriad deuol ar wahân. Eleni, rydym wedi symleiddio ein hadroddiad drwy gynnwys y dadansoddiad o ddata cofrestriad deuol yn y niferoedd cyffredinol ar gyfer math o gofrestriad. I gael rhagor o wybodaeth gweler yr adran ‘Nodiadau ar ddata’ yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae Tabl 2 yn dangos nifer yr atgyfeiriadau newydd yn ôl math o gofrestriad. Nid oes unrhyw newid perthnasol wedi bod yng nghyfran yr atgyfeiriadau yn ôl math o gofrestriad o gymharu â 2016–2017.

**Tabl 2: Pryderon yn ôl math o gofrestriad**

| Math o gofrestriad | 2017–18 | | 2016–17 |
|---|---|---|---|
| | Nifer yr atgyfeiriadau newydd | Canran yr holl atgyfeiriadau | Canran yr holl atgyfeiriadau |
| Nyrs | 4,538 | 95% | 92% |
| Bydwraig | 240 | 5% | 3% |
| Cofrestriad deuol | - | - | 5% |
| **Cyfanswm** | **4,778** | | |

## Canlyniadau asesiad cychwynnol

Yn 2017–2018, gwnaethom gau 3,081 o achosion ar ôl asesiad cychwynnol, naill ai oherwydd nad oeddem yn gallu nodi nyrs neu fydwraig ar ein cofrestr, neu oherwydd nad oedd y pryderon a godwyd yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddio yn eu cylch. Mae'r gyfradd cau o 56 y cant yn ostyngiad bach yn y gyfradd cau o 60 y cant yn 2016–2017.

Byddwn yn atgyfeirio pryderon at gyrff rheoleiddio eraill pan fyddwn o'r farn efallai bod angen iddynt weithredu i ddiogelu'r cyhoedd. Yn 2017–2018 gwnaethom 233 o atgyfeiriadau at sefydliadau eraill.

Yn 2017–2018, gosododd ein paneli orchmynion interim i ddiogelu'r cyhoedd wrth i'n hymchwiliadau fynd rhagddynt mewn 583 o achosion (2016–2017: 705). Mae Tabl 3 yn dangos y dadansoddiad rhwng y ddau fath gwahanol o orchmynion interim.

**Tabl 3: Gorchmynion interim a osodwyd**

| Penderfyniadau gorchmynion interim | 2017–18 | | 2016–17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim | Nifer y gorchmynion interim | Canran y gorchmynion interim |
| Amodau ymarfer interim | 309 | 53% | 326 | 46% |
| Atal dros dro interim | 271 | 47% | 379 | 54% |
| **Cyfanswm** | **580** | | **705** | |

Mae Tabl 2 yn dadansoddi nifer y gorchmynion interim a osodwyd yn ôl math o gofrestriad. Mae newid wedi bod yng nghyfran y gorchmynion interim a osodwyd yn ôl math o gofrestriad. Nid ydym wedi nodi unrhyw dueddiadau penodol a byddwn yn monitro newidiadau yn y dyfodol.

**Tabl 4: Gorchmynion interim a osodwyd yn ôl math o gofrestriad**

| Penderfyniadau gorchmynion interim | 2017–18 | | 2016–17 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Amodau ymarfer interim | 284 (52%) | 25 (71%) | 289 (45%) | 20 (59%) | 17 (57%) |
| Atal dros dro interim | 261 (48%) | 10 (29%) | 352 (55%) | 14 (41%) | 13 (43%) |
| **Cyfanswm** | **545** | **35** | **641** | **34** | **30** |

## Canlyniadau Archwilydd Achos

Yn 2017–2018, gwnaeth ein Harchwilwyr Achos 2,234 o benderfyniadau (2016–2017: 2,709) ar ddiwedd ymchwiliad. Roedd nifer yr ymchwiliadau a gwblhawyd yn is na'r disgwyl a byddwn yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn ystod 2018–2019. Yn flaenorol, roedd gan Archwilwyr Achos y pŵer i naill ai gau achos heb gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach neu atgyfeirio'r achos at wrandawiad neu gyfarfod. Ym mis Awst 2017, gwnaethom gyflwyno pwerau ychwanegol i Archwilwyr Achos roi cyngor, cyflwyno rhybuddion, neu gytuno ar ymgymeriadau.

Mae Tabl 5 yn dadansoddi cyfanswm y penderfyniadau yn ôl math. Yn 2017–2018, atgyfeiriodd Archwilwyr Achos lai o achosion yn ôl cyfran at wrandawiad neu gyfarfod o gymharu â 2016–2017. Yn rhannol, mae hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r pwerau newydd o fis Awst 2017. Mae cynnydd wedi bod hefyd yng nghyfran yr achosion a gafodd eu cau heb i unrhyw gamau gweithredu pellach gael eu cymryd. Nid ydym wedi nodi unrhyw dueddiadau penodol mewn perthynas â'r achosion hyn a byddwn yn parhau i fonitro'r gyfradd cau yn ofalus.

**Tabl 5: Cyfanswm penderfyniadau Archwilwyr Achos**

| Penderfyniadau Archwilwyr Achos | 2017–18 | 2016–17 |
|---|---|---|
| | Nifer yr achosion | Nifer yr achosion |
| Atgyfeirio at wrandawiad neu gyfarfod | 819 (37%) | 1,539 (57%) |
| Cyngor | 24 (1%) | - |
| Rhybudd | 93 (4%) | - |
| Ymgymeriad | 28 (1%) | - |
| Dim camau gweithredu pellach | 1,270 (57%) | 1,170 (43%) |
| **Cyfanswm** | **2,234** | **2,709** |

Mae Tabl 6 yn dadansoddi nifer y penderfyniadau Archwilwyr Achos yn ôl math o gofrestriad. Mae cyfran y gwahanol fathau o benderfyniadau ar gyfer nyrsys yn adlewyrchu'r dosbarthiad cyffredinol (gweler Tabl 5). Mewn perthynas â'r dosbarthiad cyffredinol, mae'n ymddangos bod achosion am fydwragedd ychydig yn llai tebygol o gael eu cau heb i unrhyw gamau gweithredu pellach gael eu cymryd neu gydag un o'r pwerau gwaredu newydd; fodd bynnag, o ystyried maint bach y sampl ar y cam hwn, ni ddylid dod i unrhyw gasgliadau cadarn.

**Tabl 6: Nifer y penderfyniadau yn ôl math o gofrestriad**

| Penderfyniadau Archwilwyr Achos | 2017–18 | | 2016–17 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Atgyfeirio at wrandawiad neu gyfarfod | 770 (37%) | 49 (40%) | 1,444 (57%) | 56 (56%) | 39 (71%) |
| Cyngor | 22 (1%) | 2 (2%) | - | - | - |
| Rhybudd | 87 (4%) | 6 (5%) | - | - | - |
| Ymgymeriad | 22 (1%) | 6 (5%) | - | - | - |
| Dim camau gweithredu pellach | 1,211 (57%) | 59 (48%) | 1,110 (43%) | 44 (44%) | 16 (29%) |
| **Cyfansymiau** | **2,112** | **122** | **2,554** | **100** | **55** |

Mae Archwilwyr Achos yn gweithio mewn parau. Mae un yn nyrs neu'n fydwraig gofrestredig, ac mae un yn berson lleyg. Os na fydd yr Archwilwyr Achos yn gallu cytuno ar ganlyniad, mae'n rhaid iddynt atgyfeirio'r achos at banel annibynnol o'r Pwyllgor Ymchwilio i wneud penderfyniad. Nid atgyfeiriwyd unrhyw achosion at y Pwyllgor Ymchwilio yn 2017–2018 (2016–2017: 0).

## Canlyniadau gwrandawiadau a chyfarfodydd

Yn 2017–2018, daeth ein paneli i 1,207 o benderfyniadau terfynol ar achosion (2016–2017: 1,513) drwy gyfarfodydd a gwrandawiadau. Mae Tabl 7 yn dadansoddi penderfyniadau panel yn ôl math. Nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y mathau o gosb a osodwyd yn 2017–2018 o gymharu â 2016–2017.

Mae cynnydd wedi bod yng nghyfran yr achosion a wnaeth arwain at ganfyddiad o ddim diffyg. Gall hyn adlewyrchu ymgysylltu gwell â chofrestryddion yn ystod y cam gwrandawiad a mwy o barodrwydd ar eu rhan i ddarparu tystiolaeth o unioni a dealltwriaeth. Rydym yn parhau i annog nyrsys a bydwragedd i unioni'r sefyllfa cyn gynted â phosibl.

**Tabl 7: Penderfyniadau panel**

| Penderfyniad panel | 2017–18 | | 2016–17 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran |
| Dileu | 257 | 21% | 344 | 23% |
| Atal dros dro | 372 | 31% | 424 | 28% |
| Amodau ymarfer | 165 | 14% | 267 | 18% |
| Rhybudd | 129 | 11% | 164 | 11% |
| Addasrwydd i ymarfer diffygiol **–** dim cosb | 0 | 0% | 5 | <1% |
| **Is-gyfanswm** | **923** | **77%** | **1,204** | **80%** |
| Ffeithiau heb eu profi | 5 | <1% | 31 | 2% |
| Nid oedd cymhwyster y nyrs neu'r fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol | 279 | 23% | 278 | 18% |
| **Cyfanswm y penderfyniadau panel** | **1,207** | | **1,513** | |

Mae Tabl 8 yn dadansoddi penderfyniadau panel yn ôl math o gofrestriad. Mae cyfran y gwahanol fathau o benderfyniadau ar gyfer nyrsys yn adlewyrchu'r dosbarthiad cyffredinol (gweler Tabl 7) ac mae'n gyson o gymharu â 2016–2017 yn gyffredinol. Mewn perthynas â'r dosbarthiad cyffredinol, mae achosion yn cynnwys bydwragedd yn fwy tebygol o arwain at ddileu neu atal dros dro neu ffeithiau heb eu profi; maent yn llai tebygol o arwain at gosbau llai neu at ganfyddiadau o ddim diffyg. Fodd bynnag, ni ddylid dod i unrhyw gasgliadau cadarn oherwydd mae'r niferoedd yn fach ac nid yw cymhariaeth â data'r llynedd yn awgrymu tuedd.

**Tabl 8: Canlyniadau gwrandawiadau yn ôl math o gofrestriad**

| Penderfyniad panel | 2017–18 | | 2016–17 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrs | Bydwraig | Nyrs | Bydwraig | Deuol |
| Dileu | 243 (21%) | 14 (27%) | 322 (23%) | 6 (22%) | 16 (18%) |
| Atal dros dro | 355 (31%) | 17 (33%) | 384 (27%) | 4 (15%) | 36 (44%) |
| Amodau ymarfer | 157 (14%) | 8 (16%) | 246 (18%) | 7 (26%) | 14 (16%) |
| Rhybudd | 127 (11%) | 2 (4%) | 153 (11%) | 5 (19%) | 6 (7%) |
| Addasrwydd i ymarfer diffygiol – dim cosb | 0 (0%) | 0 (0%) | 4 (<1%) | 0 (0%) | 1 (1%) |
| **Is-gyfanswm** | **882** | **41** | **1,109** | **22** | **73** |
| Ffeithiau heb eu profi | 5 (<1%) | 0 (0%) | 29 (2%) | 5 (19%) | 12 (14%) |
| Nid oedd cymhwyster y nyrs neu'r fydwraig i ymarfer yn ddiffygiol | 269 (23%) | 10 (20%) | 261 (19%) | 0 (0%) | 2 (2%) |
| **Cyfansymiau** | **1,156** | **51** | **1,399** | **27** | **87** |

## Cofnodion ar y gofrestr a wnaed drwy dwyll neu'n anghywir

Mae ein paneli yn ystyried honiadau bod nyrs neu fydwraig wedi cael ei hychwanegu at y gofrestr yn anghywir neu drwy dwyll. Os byddant yn profi'r honiad, gall y panel gyfarwyddo'r Cofrestrydd i ddileu neu ddiwygio'r cofnod ar y gofrestr.

Yn 2017–2018, cyfarwyddodd ein paneli y Cofrestrydd i ddileu nyrs neu fydwraig o'r gofrestr mewn 60 o achosion (2016–2017: 36). Gwnaethom ddiweddaru ein canllawiau mewnol ar gyfer penderfynwyr yn 2015 i egluro pryd y dylai achosion gael eu hystyried yn gofnodion twyllodrus neu anghywir ar y gofrestr a phryd y dylid eu hystyried yn bryderon addasrwydd i ymarfer ehangach. Ers hynny, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion a ystyrir yn gofnodion twyllodrus neu anghywir.

## Dileu gwirfoddol

Ar ôl atgyfeirio achos at wrandawiad neu gyfarfod, gall nyrsys a bydwragedd wneud cais i gael eu dileu'n wirfoddol o'r gofrestr. Bydd y Cofrestrydd ond yn cymeradwyo ceisiadau pan fydd y nyrs neu'r fydwraig yn derbyn yr honiadau a'i fod er budd y cyhoedd i'w dileu o'r gofrestr ar unwaith.

Mae Tabl 9 yn dangos nifer y ceisiadau a gafwyd a'r ceisiadau a gymeradwywyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r gostyngiad bach yn nifer y ceisiadau ers 2016-2017 yn adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer yr achosion a atgyfeiriwyd at wrandawiad neu gyfarfod (Tabl 5).

**Tabl 9: Ceisiadau am ddileu gwirfoddol**

| Dileu gwirfoddol | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 |
|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau | 136 | 165 | 107 |
| Ceisiadau a gymeradwywyd | 66 | 77 | 44 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 70 | 88 | 63 |

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o benderfyniadau dileu gwirfoddol eleni yn ôl math o gofrestriad.

**Tabl 10: Penderfyniadau dileu gwirfoddol yn ôl math o gofrestriad**

| Dileu gwirfoddol | Cyfanswm 2017–18 | Nyrs | Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau a gymeradwywyd | 66 | 52 | 14 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 70 | 60 | 10 |

## Adolygiadau ac apeliadau

Mae gennym y pŵer i adolygu penderfyniadau'r Archwilwyr Achos a gall unrhyw un ofyn i ni wneud hynny. Yn flaenorol, roeddem ond yn gallu adolygu penderfyniadau i gau achosion heb gymryd unrhyw gamau gweithredu pellach. Ers mis Awst 2017, rydym hefyd wedi gallu adolygu penderfyniadau i roi cyngor, cyflwyno rhybuddion, neu gytuno ar ymgymeriadau.

Mae dau gam i'r broses hon o adolygu penderfyniad:

- Rydym yn penderfynu cynnal adolygiad ai peidio.
- Os byddwn yn cynnal adolygiad, gallwn naill ai benderfynu cynnal y penderfyniad gwreiddiol neu benderfynu bod angen penderfyniad newydd.

Mae Tabl 11 yn dangos nifer yr adolygiadau o benderfyniadau Archwilwyr Achos yn 2017–2018. Mae'r tabl yn dangos nifer y ceisiadau a gawsom a'r penderfyniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r ffigurau yn cydbwyso yn y flwyddyn oherwydd gwneir rhai penderfyniadau yn y flwyddyn ar ôl cael y cais. Mae nifer y ceisiadau a gawsom wedi parhau i fod yn debyg yn fras ac yn cynrychioli llai na 3 y cant o holl benderfyniadau Archwilwyr Achos.

Nid ydym o'r farn bod yr amrywiad yn nifer y penderfyniadau ail gam sy'n arwain at benderfyniad newydd yn berthnasol. Defnyddir yr hyn a ddysgir o adolygiadau i lywio hyfforddiant a gweithgareddau gwella ansawdd eraill ar gyfer Archwilwyr Achos ac ymchwilwyr.

**Tabl 11: Adolygiadau o benderfyniadau Archwilwyr Achos**

| Cam pŵer i adolygu | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau am adolygu a gafwyd | 64 | 69 | 90 |
| Y cam cyntaf: cais wedi'i gau | 35 | 57 | 37 |
| Yr ail gam: angen penderfyniad newydd | 20 | 2 | 14 |
| Yr ail gam: cynnal y penderfyniad gwreiddiol | 17 | 5 | 2 |

O'r 20 o achosion lle penderfynodd y Cofrestrydd fod angen penderfyniad newydd:

- roedd 18 oherwydd bod nam perthnasol yn y penderfyniad gwreiddiol
- roedd un oherwydd bod gwybodaeth newydd ar gael
- roedd un oherwydd bod nam perthnasol a gwybodaeth newydd.

Gall nyrs neu fydwraig apelio yn erbyn penderfyniad ein paneli. Mae'n rhaid iddynt gyflwyno eu hapêl o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad naill ai i'r Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr, yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon, neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban. Gall yr Awdurdod Safonau Proffesiynol apelio hefyd os bydd yn ystyried nad yw penderfyniad panel yn diogelu'r cyhoedd.

Mae Tabl 12 yn dangos cyfanswm nifer yr apeliadau. Mae'r gostyngiad yn nifer y canlyniadau apêl yn adlewyrchu'r gostyngiad yn nifer y penderfyniadau panel cyffredinol (Tabl 7) ac yn cynrychioli ychydig dros 2 y cant o'r holl benderfyniadau panel. Defnyddir yr hyn a ddysgir o apeliadau i lywio hyfforddiant ar gyfer aelodau panel a staff a gweithgareddau gwella ansawdd eraill.

**Tabl 12: Canlyniadau apeliadau penderfyniadau panel**

| Canlyniad | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr apeliadau a gyflwynwyd | 32 | 54 | 49 |
| Apeliadau a gynhaliwyd | 12 | 22 | 18 |
| Apeliadau a wrthodwyd | 26 | 26 | 34 |

Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o apeliadau yn erbyn penderfyniadau panel eleni yn ôl math o gofrestriad.

**Tabl 13: Apeliadau yn erbyn penderfyniadau panel yn ôl math o gofrestriad**

| | Cyfanswm 2017–18 | Nyrs | Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Apeliadau a gynhaliwyd | 12 | 10 | 2 |
| Apeliadau a wrthodwyd | 26 | 25 | 1 |

## Adfer enw nyrs neu fydwraig i'r gofrestr

Gall nyrs neu fydwraig sydd wedi'i dileu o'r gofrestr gan banel wneud cais i adfer ei henw i'r gofrestr ar ôl pum mlynedd. Cyn y gall ailymuno â'r gofrestr, mae'n rhaid iddi fodloni panel ei bod yn addas i ymarfer. Os bydd ei chais yn llwyddiannus, fel arfer bydd angen iddi ddilyn rhaglen dychwelyd i ymarfer.

Mae Tabl 14 yn dangos canlyniadau ceisiadau adfer yn 2017–2018. Nid ydym wedi nodi unrhyw dueddiadau sy'n ymwneud ag amrywiad yn nifer y ceisiadau adfer dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Tabl 14: Canlyniadau ceisiadau adfer**

| Canlyniad | 2017–18 | 2016–17 | 2015–16 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau a gafwyd | 52 | 35 | 25 |
| Ceisiadau a gafwyd | 21 | 5 | 18 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 15 | 5 | 8 |

Mae Tabl 15 yn dangos y dadansoddiad o benderfyniadau adfer eleni yn ôl math o gofrestriad.

**Tabl 15: Apeliadau yn erbyn penderfyniadau adfer yn ôl math o gofrestriad**

| | Cyfanswm 2017–18 | Nyrs | Bydwraig |
|---|---|---|---|
| Ceisiadau a gafwyd | 21 | 20 | 1 |
| Ceisiadau a wrthodwyd | 15 | 13 | 2 |

## Nodiadau ar y data

### Cymaroldeb

Dyma'r ail flwyddyn rydym wedi llunio adroddiad drwy ddefnyddio rhifau achosion yn hytrach na rhifau adnabod personol nyrsys a bydwragedd fel y dynodwr. Oherwydd hynny, dim ond dwy flynedd o ddata cymharol sydd gennym yn nhablau 1 i 15.

### Cofrestriad deuol

Gall rhywun gofrestru gyda ni:

- fel nyrs
- fel bydwraig
- fel nyrs a bydwraig (a elwir yn gofrestriad deuol).

Os codir pryderon am addasrwydd i ymarfer rhywun sydd â chofrestriad deuol, byddwn yn cofnodi p'un a yw'r pryderon wedi codi yn ei hymarfer fel nyrs neu fydwraig. Os nad yw'r pryderon yn ymwneud yn uniongyrchol â'i hymarfer clinigol – er enghraifft, oherwydd eu bod yn ymwneud â'i phroffesiynoldeb yn gyffredinol – rydym yn cofnodi eu bod yn ymwneud â'i chofrestriad deuol.

Y llynedd gwnaethom nodi'r dadansoddiad o ddata cofrestriad deuol ar wahân. Eleni, rydym wedi symleiddio ein hadroddiad drwy gynnwys y dadansoddiad o ddata cofrestriad deuol yn y niferoedd cyffredinol ar gyfer math o gofrestriad.

### Cyfnod adrodd

Nid ydym yn cwblhau pob achos a gawn yn ystod y cyfnod adrodd. Felly bydd gwahaniaethau rhwng y niferoedd a geir a'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn cyhoeddi data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein hadroddiad cydraddoldeb ac amrywiaeth blynyddol ar wahân.

## Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd

Yn ystod 2017–2018, gwnaethom nifer o newidiadau i wella ein heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth ddiogelu'r cyhoedd.

**Newid deddfwriaethol**

Ym mis Mawrth 2017, tynnodd newidiadau i'n deddfwriaeth ofyniad i oruchwylio bydwragedd yn statudol. O ran addasrwydd i ymarfer, mae hyn bellach yn golygu y gallwn fynd i'r afael â phryderon am fydwragedd yn yr un ffordd ag yr ydym yn mynd i'r afael â phryderon am nyrsys. Gwnaethom weithio gyda bydwragedd a chyflogwyr i sicrhau trosglwyddiad di-dor. Nid ydym wedi gweld unrhyw newid yng nghyfran yr atgyfeiriadau am fydwragedd yn ystod y flwyddyn (Tablau 2 a 3).

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom newidiadau i'n deddfwriaeth addasrwydd i ymarfer. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i ni fod yn fwy hyblyg yn ein dull o ymdrin ag achosion, o'u cwblhau yn gynt yn y broses i fwy o hyblygrwydd o ran ble y gallwn gynnal ein gwrandawiadau. Nod y newidiadau yw gwneud arbedion ariannol a gwneud y broses yn decach ac yn fwy cymesur.

| Crynodeb o newidiadau | Buddiannau |
|---|---|
| Gwnaethom gynyddu'r amser rhwng adolygiadau gorchymyn interim o dri mis i chwe mis. | Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018, gwnaethom arbed £801,000 mewn costau gwrandawiadau. |
| Crëwyd Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer unigol. Yn flaenorol roedd dau Bwyllgor ar wahân; y Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd a'r Pwyllgor Iechyd. | Gallwn ddiogelu'r cyhoedd yn haws oherwydd gellir cynnal gwrandawiadau ar gyfer gwahanol fathau o honiadau gyda'i gilydd.<br><br>Rydym bellach yn gallu amserlennu achosion yn haws am fod gennym fwy o aelodau panel ar gael. |
| Yn flaenorol roedd hi'n ofynnol i'r Pwyllgorau adolygu'r holl amodau ymarfer a gorchmynion atal dros dro cyn iddynt ddod i ben. Gall paneli nodi bellach p'un a oes angen adolygiad ai peidio cyn i'r gorchymyn ddod i ben. | Gallwn gwblhau achosion yn fwy effeithlon pan fydd angen gorchymyn i gynnal safonau neu hyder yn y proffesiwn ond nad yw'r nyrs neu'r fydwraig yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| Rhoddwyd pwerau newydd i Archwilwyr Achos roi cyngor, cyflwyno rhybuddion a chytuno ar ymgymeriadau. Cafodd ein pŵer i adolygu penderfyniadau Archwilwyr Achos ei ymestyn hefyd i gwmpasu'r pwerau newydd hyn. | Mae cwblhau'r achosion hyn yn gynt yn golygu bod llai o effaith ar yr holl bobl sy'n rhan o achosion, gan gynnwys cleifion ac aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Rhwng mis Awst 2017 a mis Mawrth 2018, rydym wedi gwario £2 filiwn yn llai ar wrandawiadau drwy ddefnyddio'r pwerau newydd hyn. |
| Nid oes angen cynnal gwrandawiadau yng ngwlad cyfeiriad cofrestredig y nyrs neu'r fydwraig mwyach. | Gallwn fod yn fwy hyblyg wrth amserlennu gwrandawiadau, a all leihau faint o deithio y bydd angen i dystion, aelodau o'r cyhoedd, a nyrsys a bydwragedd ei wneud. |

**Recordio sain digidol**

Gwnaethom gyflwyno system recordio sain digidol yn ein canolfannau gwrandawiadau yn Llundain a Chaeredin. Mae hyn wedi gwella diogelwch data, effeithlonrwydd ac ansawdd trawsgrifiadau o'n gwrandawiadau. Ers cyflwyno'r system, rydym wedi gwario £667,000 yn llai ar ysgrifenwyr llaw-fer.

## Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr ac Uned Gwybodaeth Reoleiddio

Mae ein Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr:

- yn helpu cyflogwyr i benderfynu a oes angen iddynt atgyfeirio pryderon am nyrsys a bydwragedd atom,
- yn cynnig hyfforddiant sefydlu i uwch arweinwyr nyrsio a bydwreigiaeth a setiau dysgu ar gyfer eu timau ehangach,
- yn gweithio gyda rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau y caiff risgiau eu nodi a'u rheoli gan y sefydliadau cywir,
- yn gwrando ar awgrymiadau cyflogwyr am ffyrdd i wella ein prosesau.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar lwyddiant y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn ei ail flwyddyn drwy gryfhau cydberthnasau â chyflogwyr a rheoleiddwyr eraill. Eleni gwnaethom sefydlu'r Uned Gwybodaeth Reoleiddio i weithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr. Mae eu gwaith yn golygu y gallwn ddilyn dull mwy penodol o ymgysylltu â chyflogwyr a rheoleiddwyr eraill.

Mae gwaith yr Uned Gwybodaeth Reoleiddio yn cynnwys gwella ein gwaith casglu data a'r ffordd rydym yn rhannu data â rheoleiddwyr eraill i roi dealltwriaeth well i ni o

dirweddau a systemau gofal iechyd a rheoleiddio ehangach. Mae gwaith yr Uned Gwybodaeth Reoleiddio yn llywio'r Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr yn well am dueddiadau data cyn ymgysylltu â chyflogwyr. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar wahân am waith y Gwasanaeth Cyswllt Cyflogwyr a'r Uned Gwybodaeth Reoleiddio.

## Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ei Adolygiad o Wersi a Ddysgwyd o'r ffordd y gwnaethom ymdrin â phryderon am fydwragedd yn Ysbyty Cyffredinol Furness. Rydym yn croesawu'r adroddiad ac yn derbyn yn llwyr nad oedd y ffordd y gwnaethom ymdrin â'r achosion hyn yn dderbyniol. Nid oedd y ffordd y gwnaethom reoli'r achosion na'n dull o ymgysylltu â'r cleifion a'r teuluoedd dan sylw yn cydymffurfio â'n gwerthoedd fel sefydliad. Rydym wedi ymddiheuro i'r cleifion a'r teuluoedd am yr effaith sylweddol a thrawmatig a gafodd ein camgymeriadau arnynt.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwneud llawer o welliannau i'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cydnabod bod pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud yn wahanol ac yn well i barhau i wella ac ymgorffori ein gwerthoedd drwy'r sefydliad cyfan. Y meysydd â blaenoriaeth lle rydym am wneud newid sylweddol yn y ffordd rydym yn gweithio yw:

- trin pawb sy'n dod i gysylltiad â ni â pharch
- gwella ein dull o ran tryloywder a sicrhau ein bod yn agored gyda phobl pan fydd pethau'n mynd o chwith
- ymgorffori diwylliant o fod yn agored a dysgu drwy'r sefydliad cyfan.

## Cyfeiriad strategol newydd

Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn gwybod bod mwy y gallwn ei wneud i wella'r ffordd rydym yn ymdrin â phryderon am nyrsys a bydwragedd. Ym mis Ebrill 2018, gwnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus am ein cynlluniau i bennu cyfeiriad strategol newydd ar gyfer addasrwydd i ymarfer: *Sicrhau diogelwch cleifion, galluogi proffesiynoldeb.*

Mae rheoleiddio proffesiynol yn ymwneud â rheoli risgiau i ddiogelwch y cyhoedd, nid cosbi pobl am y pethau maent wedi'u gwneud yn anghywir. Mae gan reoleiddwyr rôl allweddol i'w chwarae wrth feithrin diwylliant teg yn y sector iechyd a gofal. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu gwneud y canlynol:

- Gwella'r ffordd rydym yn ymdrin â phryderon a godir gan aelodau o'r cyhoedd a rhoi mwy o gymorth iddynt ymgysylltu â'r broses addasrwydd i ymarfer yn effeithiol.
- Gweithio'n agosach gyda chyflogwyr fel y gallant ddatrys mwy o bryderon yn lleol yn gyntaf, heb fod angen i ni gymryd camau rheoleiddio.
- Sicrhau bod cyd-destun digwyddiadau diogelwch cleifion yn cael ei ystyried yn briodol fel ein bod ond yn canolbwyntio ar faterion sy'n codi pryderon rheoleiddio gwirioneddol am gamau gweithredu unigolyn.
- Ymgysylltu â nyrsys a bydwragedd yn gynt pan fydd gennym bryderon rheoleiddio am eu hymarfer i drafod sut y gallant wella pethau.
- Ceisio datrys cynifer o broblemau â phosibl drwy gytundeb a chanolbwyntio mewn gwrandawiadau panel ar ddatrys materion nas cytunwyd arnynt.

Mae ein cynigion yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd llai o wrandawiadau panel llawn yn gyhoeddus. Pan fyddwn yn cymryd camau rheoleiddio i ddiogelu'r cyhoedd, byddwn bob amser yn cyhoeddi ein rhesymau mewn modd agored a thryloyw.

Yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaethom ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, yn ogystal â chyflogwyr, nyrsys a bydwragedd, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ledled y DU. Byddwn yn cwblhau ein dull strategol newydd, gan ystyried safbwyntiau ac adborth, ym mis Gorffennaf 2018 ac yn dechrau gweithredu yn 2018.

CCS1018757050
978-1-5286-0830-5